Papur 10

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deisebau**
—
Welsh Parliament
**Petitions Committee**

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

22 Hydref 2021

Annwyl John

**Deiseb P-05-1056 Rhowch rymoedd i Awdurdodau Lleol reoli'r farchnad dai yn ardaloedd gwledig a thwristaidd Cymru**

Yn ddiweddar, ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb a ganlyn gan Osian Jones yn ei gyfarfod ar 4 Hydref.

***Geiriad y ddeiseb:***

> *Mewn nifer o ardaloedd gwledig a thwristaidd y mae cyfran helaeth o drigolion yn cael eu hamddifadu o gartrefi am fod prisiau tai wedi eu chwyddo gan y galw am ail gartrefi a thai gwyliau. Gallai'r Prif Weinidog gyfarwyddo Gweinidogion priodol i gychwyn trafodaethau ar frys gydag Awdurdodau Lleol i lunio strategaeth i sicrhau fod rheolaeth gan gymunedau ar y farchnad dai yn bennaf trwy ddiwygiadau yn y drefn gynllunio.*

Yn y cyfarfod, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu atoch i'ch Pwyllgor chi ystyried y mater hwn fel rhan o'ch rhaglen waith. Wrth ysgrifennu atoch chi, cytunodd y Pwyllgor hefyd y byddai'n cau'r ddeiseb.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig, ar gael ar ein gwefan yn: https://busnes.senedd.cymru/ieIssueDetails.aspx?IId=30064&Opt=3.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor drwy'r cyfeiriad e-bost isod, neu drwy ffonio 0300 200 6454.

Yn gywir

Jack Sargeant AS

Cadeirydd

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
0300 200 6565